# Sut i Droi Hysbysiadau ar gyfer yr Ap Velindre Keep Me Safe Ymlaen

Mae dwy ffordd i droi hysbysiadau ar gyfer y rhestr wirio ar gyfer yr ap Velindre Keep Me Safe ar eich iPhone ymlaen.

1. Pan fyddwch chi'n llwytho'r ap i lawr am y tro cyntaf, dewiswch 'yes' i dderbyn hysbysiadau gwthio
2. Golygu'r gosodiadau hysbysiadau ar eich iPhone







I olygu'r gosodiadau, i ddechrau, dewch o hyd i ’settings’ ar eich iPhone. Bydd ‘settings’ yn edrych fel cog arian. Gallwch ddod o hyd iddo mewn sawl lle.


1. Ar y gwaelod ar y bar dolenni cyflym


2. Ar y dudalen gartref gyffredinol ar eich ffôn


3. Gallwch ddod o hyd i'r ap ‘settings’ yn eich bar chwilio ar eich iPhone hefyd.  Gwnewch yn siŵr bod y sgrin cartref ar agor, a sweipiwch eich bys i lawr y sgrin, o’r top i lawr.

KEEPMESAFE


Unwaith y bydd ar agor, bydd angen i chi glicio ar 'Notifications'.








Bydd rhestr o'r holl apiau ar eich iPhone yn ymddangos. Dewiswch yr ap 'Velindre Keep Me Safe'.





Mae hyn yn golygu y gallwch nawr olygu'r opsiynau hysbysiadau yn benodol ar gyfer yr ap hwn. Ni fydd unrhyw newidiadau rydych yn eu gwneud yn effeithio ar unrhyw apiau eraill rydych chi wedi eu llwytho i lawr ar eich iPhone.

Os na wnaethoch chi bwyso ar ‘allow the app to send you notifications’  pan wnaethoch chi lwytho’r ap Velindre Keep Me Safe i lawr am y tro cyntaf, bydd eich gosodiadau hysbysiadau ar gyfer yr ap hwn yn edrych fel hyn.




Gwasgwch ar y botwm togl unwaith, a bydd yn sleidio ac yn troi’n wyrdd. Mae gwyrdd yn golygu bod hysbysiadau sylfaenol wedi cael eu troi ymlaen.




Nawr, mae’r hysbysiadau sylfaenol wedi cael eu troi ymlaen. Fodd bynnag, mae angen i chi sicrhau bod yr holl opsiynau 'Alerts' wedi cael eu ticio, fel eich bod yn derbyn hysbysiad pan fydd yr hysbysiadau ar gyfer y rhestr wirio ar yr ap Velindre Keep Me Safe ar gael.  I wneud hyn, gwnewch yn siŵr eich bod yn clicio ar yr opsiynau ‘sounds’ a ‘badges’, fel eu bod yn troi’n wyrdd hefyd.

Gwnewch yn siŵr bod yr holl opsiynau hyn yn cael eu troi ymlaen, i roi'r cyfle gorau posibl i chi weld yr hysbysiad ar gyfer y rhestr wirio.

**Banner style:** Mae ‘Persistent’, yn golygu y byddwch yn gweld yr hysbysiad nes i chi ei sweipio i ffwrdd neu ei agor, rhag ofn nad ydych yn gweld yr hysbysiad pan fydd yn ymddangos gyntaf ar eich ffôn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn clicio ar ‘sounds’ a ‘badges’ fel eu bod yn troi’n wyrdd.

**‘Show previews’ yn y sgrin cloi:** ‘Always (Default)’.

Bydd y newidiadau yn cael eu harbed yn awtomatig, a byddwch yn derbyn hysbysiadau ar gyfer y rhestr wirio ar eich sgrin cloi y tro nesaf y bydd eich ffenestr ar gyfer y rhestr wirio ar yr ap yn agor.